Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 1 Hydref 2013**

Amser y cyfarfod:
13:30

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(151)v5

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**2 Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon (45 munud)**
Gweld y cwestiynau

**3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**
Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**Cynnig i ethol Aelod i Bwyllgor**
**NDM 5314 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Simon Thomas (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Cyllid.

**4 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cyflwyno Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) (30 munud)**

**5 Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Adolygiad o Ddarparu Gwasanaethau**

**Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol: Gweithio Rhanbarthol (30 munud)**

**Dogfennau Ategol**

Adolygiad Robert Hill o'r system ar gyfer Darparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch Darparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol

**6 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg: Lansio'r Cynllun Gweithredu ar Ymgysylltu a Datblygiad Ieuenctid (30 munud)**

**7 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf am Ardrethi Busnes (30 munud)**

**Dogfen Ategol**

Rhyddhad Ardrethi Busnes i Elusennau a Mentrau Cymdeithasol

**8 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Eiddo Deallusol (15 munud)**

NDM5250 Carwyn Jones (Pen-y-Bont ar Ogwr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Eiddo Deallusol sy'n ymwneud â rhyddid gwybodaeth, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mai 2013 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i).

I weld copi o'r Bil ewch i:

Bill documents — Intellectual Property Bill [HL] 2013-14 — UK Parliament

**Dogfen Ategol**

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Llythyr gan y Cadeirydd at y Prif Weinidog - Materion yn codi o ystyriaeth y Pwyllgor

Llythyr mewn ymateb at y Pwyllgor Menter a Busnes - *Ar gael yn Saesneg yn unig*

**9 Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Teithio Llesol (Cymru) (90 mins)**

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.

**Mae'r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl a byddant yn cael eu trafod fel a ganlyn:**

**1. Monitro, gwerthuso ac adrodd**
**1, 8A, 8, 13, 14, 15A, 15B, 15, 21**

**2. Dyletswyddau traffig ffyrdd a phriffyrdd**
**2, 16, 17, 22, 23**

**3. Hyrwyddo cerdded a beicio**
**3*, 3A*, 12A, 12, 18A, 18B, 18, 19A, 19, 24A, 24**

**4. Llwybrau Teithio Llesol**
**26, 25**

**5. Ystyr 'cyfleusterau cysylltiedig' a 'teithiau llesol'**
**4, 5, 6, 7, 20**

**6. Cymeradwyaeth gan Weinidogion i fapiau**
**9, 10, 11**

**7. Dyletswydd i adolygu'r canllawiau**
**27**

* Caiff y gwelliannau hyn eu gwaredu yn y drefn a ganlyn—3A, 3

**Dogfennau Ategol**

Y Bil Teithio Llesol (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli
Grwpio gwelliannau

**10 Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Teithio Llesol (Cymru) (5 munud)**

Ar ddiwedd Cyfnod 3 caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47. Os derbynnir y cynnig

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 2 Hydref 2013

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 26 Medi 2013 i'w hateb ar 1 Hydref 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Alun Ffred Jones (Arfon): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y sefyllfa recriwtio meddygon yn ardal Ymddiriedolaeth Iechyd Betsi Cadwaladr? OAQ(4)1230(FM)W

2. Christine Chapman (Cwm Cynon): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynyddu nifer y merched sy'n dewis pynciau STEM? OAQ(4)1227(FM)

3. Mick Antoniw (Pontypridd): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno cyflog byw yng Nghymru? OAQ(4)1225(FM)

4. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r targedau a'r dangosyddion perfformiad allweddol sydd wedi'u nodi ar gyfer yr Uned Gyflawni yn ei werthusiad o broses cyflawni polisïau Llywodraeth Cymru? OAQ(4)1234(FM)

5. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer mynd i'r afael â thlodi y tymor hwn? OAQ(4)1238(FM)

6. Lynne Neagle (Torfaen): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am waith Comisiynydd y Gymraeg? OAQ(4)1231(FM)

7. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gofal plant ar gael yn fwy hwylus i rieni sy'n gweithio? OAQ(4)1224(FM)

8. Ann Jones (Dyffryn Clwyd): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau adfywio yn Nyffryn Clwyd? OAQ(4)1226(FM)

9. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed): Pa gamau y mae’r Prif Weinidog yn eu cymryd i gefnogi busnesau ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)1239(FM)

10. Sandy Mewies (Delyn): A wnaiff y Prif Weinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf am yr ymgyrch iechyd cyhoeddus i gynyddu nifer y bobl sy’n cael y brechlyn MMR er mwyn rhwystro lledaeniad y frech goch? OAQ(4)1237(FM)

11. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd): Pryd y bydd y Prif Weinidog yn cwrdd nesaf â Phrif Weinidogion Llywodraethau datganoledig y DU i drafod cyfansoddiad y DU? OAQ(4)1235(FM)W

12. Aled Roberts (Gogledd Cymru): Pa ystyriaeth a roddwyd i gyflwyno prydau am ddim i bob plentyn mewn ysgolion babanod yng Nghymru, yn dilyn y datganiad diweddar gan Lywodraeth y DU? OAQ(4)1232(FM)W

13. Llyr Huws Gruffydd (Gogledd Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am Cyfoeth Naturiol Cymru chwe mis ers ei sefydlu? OAQ(4)1228(FM)W

14. Janet Finch-Saunders (Aberconwy): Pa gamau y mae’r Prif Weinidog yn eu cymryd i helpu i ddatrys yr anghydfod ynghylch pensiwn diffoddwyr tân? OAQ(4)1229(FM)

15. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf am beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu'r rheini yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru y mae diwygiadau lles Llywodraeth y DU yn effeithio arnynt? OAQ(4)1236(FM)

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 24 Medi 2013 i'w hateb ar 1 Hydref 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

## Gofyn i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon

1. Mick Antoniw (Pontypridd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn amlinellu'r pwerau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ddiogelu adeiladau hanesyddol? OAQ(4)0060(CS)

2. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch pam nad oedd enwau aelodau'r panel cyn ymgynghori a aeth i'r gweithdai ar yr adolygiad arfaethedig o ddeddfwriaeth mynediad a hamdden awyr agored ar gael i'r cyhoedd? OAQ(4)0064(CS)

3. David Rees (Aberafan): Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran gwella argaeledd rhandiroedd ledled Cymru? OAQ(4)0063(CS)

4. Darren Millar (Gorllewin Clwyd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymorth Llywodraeth Cymru i bysgota fel chwaraeon? OAQ(4)0054(CS)

5. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru): Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â mynediad agored i dir a dyfrffyrdd? OAQ(4)0065(CS)

6. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu cyfleusterau chwaraeon ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)0066(CS)

7. Christine Chapman (Cwm Cynon): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hybu beicio yng Nghymru? OAQ(4)0057(CS)

8. Peter Black (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau y mae'n eu cymryd ynghylch ein treftadaeth grefyddol? OAQ(4)0055(CS)

9. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y posibilrwydd o israddio'r pwll nofio rhyngwladol yn Abertawe? OAQ(4)0059(CS)

10. **William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer Parciau Cenedlaethol Cymru? OAQ(4)0056(CS)

11. **Elin Jones (Ceredigion)**: Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda rheolwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru? OAQ(4)0061(CS)

12. **Janet Finch-Saunders (Aberconwy)**: Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ymestyn gweithgarwch chwaraeon a hamdden i blant a phobl ifanc sydd wedi eu hallgáu'n gymdeithasol? OAQ(4)0062(CS)

13. **Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am godi proffil menywod mewn chwaraeon? OAQ(4)0058(CS)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dydd Mawrth 8 Hydref a dydd Mercher 9 Hydref 2013

Dydd Mawrth 15 Hydref a dydd Mercher 16 Hydref 2013

Dydd Mawrth 22 Hydref a dydd Mercher 23 Hydref 2013

*******************************************************************

Dydd Mawrth 8 Hydref 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid: Cyllideb Ddrafft 2014-15 (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid: Y cynnydd a wnaed o ran datblygu Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-20 (30 munud)
- Dadl ar Dalu Costau Tai yn Uniongyrchol i Denantiaid yng Nghymru (60 munud)
- Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (60 munud)
- Cynnig i gymeradwyo Penderfyniad Ariannol y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (5 munud)
- Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) (60 munud)
- Cynnig i gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol ynghylch Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) (5 munud)

Dydd Mercher 9 Hydref 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Eluned Parrott (Canol De Cymru) (30 munud)
- Dadl Fer – Andrew RT Davies (Canol De Cymru) (30 munud) - a ail-drefnwyd ers 2 Hydref

Dydd Mawrth 15 Hydref 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Cyflwyno'r Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) (60 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth: Llwyddiant Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i Gyllido a Hwyluso'r Gwaith o Gyflogi 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: System Trafnidiaeth Integredig De Ddwyrain Cymru (30 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Archwilio ac Atebolrwydd Lleol (15 munud)
- Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: "Gweithio gyda'n gilydd i gryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru - Adolygiad Cymru 2012-13" (60 munud)
- Dadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2012-13 (60 munud)

Dydd Mercher 16 Hydref 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar yr Ymchwiliad i weithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer diabetes yng Nghymru a'i gyfeiriad yn y dyfodol (60 munud)
- Dadl i geisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod ynghylch Llythrennedd Ariannol (Bethan Jenkins) (60 munud)
- Dadl Fer - Paul Davies (Preseli Sir Benfro) (30 munud)

Dydd Mawrth 22 Hydref 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i’r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Gorchymyn Diogelwch Tân Domestig (Diffinio Preswylfa) (Cymru) 2013 (15 munud)
- Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) (60 munud)
- Cynnig i gymeradwyo'r Penderfyniad Ariannol ynghylch y Bil Rheoli Ceffylau (Cymru) (5 munud)
- Dadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2012-2013 (60 munud)

Dydd Mercher 23 Hydref 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i’r Gweinidog Cyllid (45 munud)
- Cwestiynau i’r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar yr Ymchwiliad i Addasiadau yn y Cartref (60 munud)
- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Sefydlu tîm criced cenedlaethol i Gymru (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer - Suzy Davies (Gorllewin De Cymru) (30 munud)